

Wylfa Newydd

Adroddiad ar yr Effaith Leol

Pennod 20: Canolfan Logisteg Parc Cybi

Rhagfyr 2018

Cyf PINS: EN010007

Mae'r dudalen hon i fod yn wag

1.0 Canolfan Logisteg Parc Cybi

1.1. Y Cyd-destun

- 1.1.1 Lleolir safle'r Ganolfan Logisteg arfaethedig yn Ardal Fenter Parc Cybi (Safle 7) a ddyrannwyd ar gyfer datblygiad B1, B2 a B8 yng Nghynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn. Ar hyn o bryd, glaswelltir gwael wedi'i led-wella yw'r safle i raddau helaeth, a cheir ardaloedd bychain o goed cymysg sy'n cynnwys y sycamorwydden yn bennaf, yn ogystal â glaswelltir niwtral wedi'i led-wella, prysgwydd, glaswelltir corsiog, gwrychoedd prin eu rhywogaethau, arwynebau caled/tir moel, creigiau ar yr wyneb a phridd gwastraff. Yn ôl mapiau perygl llifogydd Cyfoeth Naturiol Cymru, mae'r risg o lifogydd ar y safle yn isel (er bod mapiau perygl llifogydd dŵr wyneb Cyfoeth Naturiol Cymru yn dangos ambell ardal fach ynysig o risg ar y safle ac wrth ei ymyl).
- 1.1.2 Y tu allan i'r safle, ond yn agos ato, mae dwy Heneb Gofrestredig: Siambr Gladdu Trefnath a Maen Hir Tŷ Mawr. Mae cynefinoedd oddi ar y safle'n cynnwys dŵr agored (pwll arafu), ac yn ffinio â hwnnw mae prysgwydd dwys/didod a ffos wlyb i'r gogledd; glaswelltir wedi'i wella i'r dwyrain; a glaswelltir wedi'i led-wella a glaswelltir corsiog/corsydd i'r gorllewin.
- 1.1.3 Mae wal gerrig yn ffinio â'r llwybr troed sy'n mynd ar hyd terfyn de-orllewinol safle'r Ganolfan Logisteg. Mae ardal fwy o goed llydanddail lled-naturiol a chymysg oddeutu 120m i'r de ac i'r dwyrain ar y pwynt agosaf.
- 1.1.4 Mae'r safle'n rhan o Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Ynys Môn (AHNE). Mae'n hollbwysig hefyd o ran golygfeydd eang pellach, o ochrau Mynydd Tŵr, sy'n cynnwys y rhan fwyaf o ogledd Ynys Môn. Dim ond un hawl dramwy gyhoeddus sydd wrth law.
- 1.1.5 Er hynny, yn yr AHNE, mae'r enghreifftiau amlwg o ddatblygiadau economaidd, preswyl a thrafnidiaeth mwy diweddar hefyd yn cyflwyno'r cyd-destun ar gyfer y Ganolfan Logisteg arfaethedig. Mae'r rhain yn cynnwys ardaloedd preswyl yn Kingsland a Threarddur; yr A55, yr A5153 a Ffordd Gwasanaethau Parc Cybi; yr hen waith alwminiwm ym Mhenrhos; y Parc Manwerthu; ac Arhosfan Tryciau Roadking. Felly mae'r cyferbyniad llwyr rhwng hen hanes Ynys Môn – ei Henebion Cofrestredig a'r darnau o waliau cerrig sy'n creu terfynau'r caeau – a'r datblygiadau sy'n dangos datblygiad economaidd deinamig Ynys Môn, gyda'i gilydd yn cyfleu naws y lleoliad hwn. Mae'n debygol y bydd y Ganolfan Logisteg arfaethedig yn cael ei gweld gan nifer fechan o drigolion lleol Kingsland a Threarddur, pobl sy'n defnyddio dau lwybr beicio cyfagos, pobl sy'n ymweld â'r Henebion Cofrestredig, yn ogystal â phobl sy'n defnyddio ambell ran o'r rhwydwaith ffyrdd lleol.
- 1.1.6 Yn wahanol i safleoedd cysylltiedig eraill, bwriad Horizon yw cadw elfennau o'r Ganolfan Logisteg fel y byddai modd ei defnyddio ar gyfer cyflogaeth yn y dyfodol.

1.2 Effeithiau a Sylfaen Dystiolaeth

- 1.2.1 Mae'r isadrannau canlynol yn nodi'r effeithiau lleol a nodwyd gan CSYM. Os nad yw pwnc yn cael sylw yn y bennod hon, gall yr Awdurdod Archwilio ddod i'r casgliad fod CSYM o'r farn bod yr effeithiau lleol yn niwtral ar gyfer y safle hwn.
- 1.2.2 Mae CSYM yn cadarnhau bod y bennod hon, Adroddiad ar yr Effaith Leol, yn dynodi effeithiau'r datblygiad arfaethedig yn gyffredinol. Mae gan y Cyngor sylwadau manwl am gynllun y cynnig, a fydd yn cael eu cyflwyno ar wahân fel rhan o broses y Gorchymyn Cydsyniad Datblygu (DCO). Fodd bynnag, mae CSYM yn cadarnhau nad yw'r sylwadau hyn ar y cynllun yn newid yr effeithiau cyffredinol yn yr Adroddiad ar yr Effaith Leol.
- 1.2.3 Mae adroddiad gwyro [o safonau dylunio DRMB] wedi cael ei baratoi ar gyfer gwaith oddi ar ffordd yr A5025, ond ddim ar gyfer safleoedd eraill. Mae CSYM yn mynnu bod adroddiadau gwyro'n cael eu llunio ar gyfer pob darn o waith sy'n effeithio ar y briffordd gyhoeddus, ar greu ffyrdd a fydd yn dod yn briffordd gyhoeddus neu ar ffyrdd a fydd yn cael eu defnyddio gan y cyhoedd. Byddai CSYM yn gofyn i'r Awdurdod Archwilio fynnu bod adroddiadau gwyro'n cael eu cyflwyno ar gyfer y safle hwn er mwyn gallu rhoi ystyriaeth briodol i'r cynllun manwl sy'n cael ei gynneg.
- 1.2.4 Er nad yw Horizon wedi nodi unrhyw effeithiau cadarnhaol sy'n deillio o'i gynigion, mae CSYM o'r farn y byddai datblygu'r safle at ddefnydd logisteg, a chadw'r darnau sy'n cynnwys arwyneb caled, gwasanaethau a rhannau wedi'u tirlunio, yn gallu gwneud i'r safle edrych yn fwy deniadol ar gyfer cyflogaeth yn y dyfodol.
- 1.2.5 Mae CSYM yn teimlo mai niwtral yw'r rhan fwyaf o'r effeithiau lleol y rhagwelir y byddant yn digwydd wrth adeiladu'r safle, yn ystod y cam gweithredol, ac yn ystod y broses o ddatgomiynu cyfyngedig. Serch hynny, mae CSYM wedi nodi rhai mesurau lliniaru ychwanegol sy'n angenrheidiol yn ei farn ef i sicrhau bod yr effeithiau'n aros yn niwtral. Mae'r mesurau lliniaru a restrir isod naill ai'n ymhelaethu ar y rheini a nodwyd gan Horizon yn ei ddatganiad amgylcheddol a'r dogfennau cysylltiedig, neu'n ychwanegu atynt.

Ecoleg

- 1.2.6 Y prif gynefinoedd sy'n debygol o gael eu defnyddio gan ystlumod ac adar yw'r nodweddion sy'n creu'r terfynau (gwrychoedd a waliau cerrig) tra mae cynefinoedd y glaswelltir, y prysgwydd a'r cerrig brig yn gartref i ychydig o nadroedd defaid. Mae CSYM yn teimlo y byddai cadw'r ardaloedd lle mae'r cerrig brig a'r gwrychoedd, a phlannu glaswelltir cyfoethog ei rywogaethau a gwrychoedd newydd yn codi gwerth y safle o safbwynt cynefinoedd, ac yn arwain at effaith gadarnhaol fach ar ystlumod, ymlusgiaid ac adar.
- 1.2.7 Mae astudiaethau sylfaenol Horizon yn dangos nad oes moch daear na dyfrgwn ar y safle, ac nad oes gan y coed ar y safle y potensial i ddenu ystlumod i glwydo. Rhagwelir na fyddai ychwanegu colofnau golau, a'r golau fyddai'n cael ei daflu yn sgil hynny, yn cael effaith niweidiol iawn ar ystlumod.

1.2.8 Bach iawn fydd effaith rheoli'r dŵr wyneb a'r solidau crog sy'n llifo ar ansawdd dŵr, a bach iawn fydd yr effeithiau cysylltiedig ar dderbynyddion dyfrol a'r rheini ar y glannau. Yn gyffredinol, mae CSYM yn cytuno â chasgliadau Horizon ynglŷn â lefelau'r effaith, ond byddai am weld mesurau lliniaru ychwanegol yn cael eu rhoi ar waith, gan gynnwys cynllun goleuadau sy'n cyd-fynd â chanllawiau'r Ymddiriedolaeth Cadwraeth Ystlumod, ynghyd â chadarnhad bod Cyfoeth Naturiol Cymru yn fodlon y gall unrhyw arolygon cyn y gwaith adeiladu ar lygoden bengron y dŵr, ac unrhyw waith chwilio tyllau sy'n ddinistriol neu'n arwain at ddadleoli, ddigwydd o dan drwydded Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae CSYM hefyd yn gofyn am ragor o eglurder ynglŷn â'r dulliau o liniaru'r effeithiau ar y neidr ddefaid, herpetoffawna ac unrhyw famaliaid sy'n dod o dan Adran 7 (e.e. Draenogod).

Dŵr Wyneb a Dŵr Daear

1.2.9 Mae Horizon wedi nodi amryfal fân effeithiau niweidiol sy'n ymwneud â dŵr wyneb a dŵr daear a fyddai'n cael eu hystyried yn llai nag arwyddocaol. Nodir chwech o'r effeithiau hyn yn Atodiad I3-1 (Prif effeithiau gweddilliol)¹. Mae CSYM yn cytuno â chasgliadau Horizon, yn amodol ar dderbyn cadarnhad o'r canlynol.

1.2.10 Mae CSYM yn nodi bod lleoliad y Ganolfan yn Ardal Llifogydd 1, gyda nodweddion y dŵr wyneb wedi'u cyfyngu i byllau dŵr oddi ar y safle a dau bant bach. Fodd bynnag, nodir mai glaswelltir corsiog yw'r safle'n bennaf ar hyn o bryd. Mae hyn yn awgrymu bod lefel y dŵr daear yn uchel, ac mae angen cadarnhad na fyddai hyn yn arwain at broblem o ran Systemau Draenio Cynaliadwy.

1.2.11 Mae'r cyfraddau draenio arfaethedig, (paragraff 4.3.2 o'r Asesiad Canlyniadau Llifogydd²) yn nodi cyfradd ryddhau sy'n cyfateb i 367l/s i'r pwll arafu. Mae hyn yn ymddangos yn hynod o uchel. Nid yw'n glir sut mae'r gyfradd hon wedi dod o Strategaeth Ddraenio wreiddiol Parc Cybi, lle'r oedd Plot 10 yn ardal fwy na'r safle presennol. Mae CSYM yn gofyn am eglurhad ynghylch a fydd y pwll dŵr oddi ar y safle i gyfeiriad y gorllewin yn darparu rhagor o fodd o arafu cyn rhyddhau i gwrs dŵr.

1.2.12 O ran draenio, mae CSYM yn gofyn am gadarnhad bod capasiti'r cwlfertau sy'n cludo'r hyn sy'n cael ei ddraenio o'r dalgyllch/safle tua'r gogledd o dan yr A55 wedi cael eu hasesu.

Traffig a Thrafnidiaeth

1.2.13 Mae CSYM o'r farn y byddai modd gwella cynaliadwyedd y safle o safbwynt trafndiaeth, gan gynnig gwell darpariaeth ar gyfer ffyrdd o deithio sy'n fwy cynaliadwy. Bydd yr adolygiad o'r Polisi a gyflwynir yn nes ymlaen yn y bennod hon yn cyfeirio at bolisiau cynllunio lleol sy'n berthnasol ar ffurf Polisi Strategol

¹ Cyfeirnod Llyfrgell Archwiliadau APP-[391]

² Cyfeirnod Llyfrgell Archwiliadau APP-[370]

PS 11 (Wylfa Newydd – Canolfannau Logisteg). Mae hwn yn cefnogi'r cyfleusterau logisteg ar yr amod eu bod – ymhlith meini prawf eraill – yn cynnwys mynediad at ddulliau teithio cynaliadwy i staff, ac yn cynnwys cysylltiadau digonol at drafnidiaeth gyhoeddus, fel y bo'n briodol. Mae Ffigurau Horizon C2-2 (Datganiad Amgylcheddol, Cyfrol C, Effeithiau cysylltiedig â thraffig ffordd)³ yn nodi'r llwybrau bysiau presennol ac yn dangos nad oes dim un yn pasio'n agos at y safle nac yn mynd iddo. Hoffai CSYM gael ymrwymiad gan Horizon i sicrhau bod trafnidiaeth gyhoeddus yn cael ei darparu ar gyfer y safle er mwyn gwasanaethu'r gweithwyr pan fydd y safle'n weithredol. Byddai CSYM hefyd am weld lloches neu fan storio beiciau y gellid ei gloi.

1.2.14 Cynigir bod y Ganolfan Logisteg yn ffordd o liniaru effeithiau'r traffig adeiladu sy'n gysylltiedig â'r brif Safle. Mae CSYM am i Horizon ddangos sut mae wedi sicrhau, mewn ffordd orfodadwy, ymrwymiad Horizon i gyfyngu ar symudiadau cerbydau (LGV/MGH/HGV) i ddim mwy na 40 o symudiadau bob awr i bob cyfeiriad, a bod cerbydau'n cael eu rhyddhau bob hyn a hyn er mwyn osgoi 'confoi' ac adegau sensitif o'r dydd (e.e. amser nôl/danfon plant o'r ysgol). O edrych ar yr hyn sydd wedi'i ddrafftio ar hyn o bryd, nid yw'n ymddangos bod y DCO yn cynnwys dogfen reoli berthnasol yn Erthygl 76, 'Ardystio Cynlluniau ac yn y blaen' ac nid oes gan yr Is-God Ymarfer Adeiladu perthnasol (Cyfrol 8.11)⁴ ddim i'w ddweud am y nifer fwyaf o symudiadau na sut bydd symudiadau'n cael eu monitro a'u rheoli.

Elfennau economaidd-gymdeithasol

1.2.15 Mae Horizon yn datgan y byddai adeiladu'r cyfleuster yn arwain at rywfaint o fuddion economaidd, gan gynnwys creu swyddi, yn ogystal â mân effeithiau cadarnhaol ar gadwyni cyflenwi lleol wrth i fusnesau a chontractwyr lleol gael eu defnyddio. Mae pennod y Datganiad Amgylcheddol⁵ yn cofnodi na fyddai unrhyw effeithiau niweidiol sylweddol o safbwynt economaidd-gymdeithasol, a byddai CSYM yn cytuno â'r casgliad hwn.

1.2.16 Ar hyn o bryd, mae Horizon wedi ymrwymo i darged llafur lleol o 22% ar draws prosiect Wylfa Newydd. Teimla CSYM y gellid defnyddio'r gadwyn gyflenwi leol sydd ar gael yn barod ar gyfer y math o weithgarwch adeiladu sy'n ofynnol i adeiladu'r cyfleuster logisteg. Oherwydd hyn, mae'n gofyn i Horizon ymrwymo i darged uwch ar gyfer cyflogi pobl leol yn ystod y broses adeiladu, ynghyd ag ymrwymiad i'r gadwyn gyflenwi leol. Dylai targed uwch ar gyfer cyflenwad y gweithwyr lleol fod yn annibynnol ar y targed sylfaenol ar gyfer prosiect Wylfa Newydd yn gyffredinol, ac ni ddylai arwain at ganran is ar gyfer safle'r Orsaf Bŵer er enghraifft.

1.2.17 Mae'r Effeithiau Negyddol a nodwyd gan CSYM yn cynnwys effeithiau'r datblygiad ar y dirwedd, derbynyddion gweledol a threftadaeth ddiwylliannol.

Tirwedd ac Elfennau Gweledol

³ Cyfeirnod Llyfrgell Archwiliadau APP-[119]

⁴ Cyfeirnod Llyfrgell Archwiliadau APP-[419]

⁵ Cyfeirnod Llyfrgell Archwiliadau APP-[357]

- 1.2.18 Mae Parc Cybi wedi'i leoli yn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Ynys Môn ond nid yw'n rhan o unrhyw Ardaloedd Tirwedd Arbennig nac yn agos at ardal o'r fath. Mae CSYM am weld yr effeithiau niweidiol uniongyrchol ac anuniongyrchol sy'n debygol ar nodweddion, rhinweddau arbennig a dibenion yr AHNE – ac ar gymeriad presennol tirwedd y safle a chymeriad y dirwedd leol – yn cael eu lliniaru lle bynnag y bo modd (boed yr effeithiau hynny'n berthnasol i'r cam adeiladu, y cyfnod pan fydd y safle'n weithredol neu yn ystod y cyfnod datgomisiynu cyfyngedig). Mae angen ystyried mesurau lliniaru ar gyfer newidiadau yn y golygfeydd i mewn i'r AHNE ac allan ohoni hefyd.
- 1.2.19 Yn ôl Horizon, mae'n debyg y bydd effeithiau niweidiol cymedrol, tymor byr a sylweddol ar gymeriad y dirwedd oherwydd y gweithgareddau adeiladu. Mae CSYM yn cytuno bod yr effeithiau hyn yn debygol o fod yn berthnasol ar draws y safle ac y byddant yn ymestyn i'r ardal gyfagos, hyd at oddeutu 1.0km o ffin y safle. Bydd hyn yn arwain at effaith niweidiol gymedrol, tymor byr a sylweddol ar y rhan hon o'r AHNE, ond ni fydd yn cael prin ddim effaith ar yr AHNE drwyddi draw.
- 1.2.20 Pan fyddai'r safle'n weithredol, byddai'r nifer uchel o gerbydau HGV – yn ogystal â'r arwynebau caled, y ffyrdd mewnol, yr adeilad diogelwch/lles, y colofnau golau a'r ffens ddiogelwch o amgylch y safle – yn newid cymeriad tirwedd y safle'n llwyr, gan arwain at effaith negyddol ar gymeriad tirwedd y safle. Byddai'r Ganolfan Logisteg hefyd yn nodwedd ychwanegol amlwg a fyddai'n cyferbynnu â chymeriad y dirwedd a welir ar hyn o bryd yn yr ardal o'i chwmpas (fel y dangosir yng Ngolygfannau 1 a 2). Byddai hyn yn arwain at effaith negyddol ar gymeriad tirwedd yr ardal o amgylch y Ganolfan, hyd at oddeutu 1.0km oddi wrth ffin y safle. Mae CSYM yn dod i'r casgliad y byddai hyn yn cael effaith negyddol ar y rhan hon o'r AHNE, ond na fyddai'n cael prin ddim effaith ar yr AHNE drwyddi draw, felly ystyrir bod hyn yn niwtral.
- 1.2.21 O ran effeithiau posib ar elfennau'n ymwneud â'r dirwedd, nid yw'r dogfennau a gyflwynwyd yn asesu effeithiau uniongyrchol tebygol y Ganolfan Logisteg arfaethedig (effeithiau niweidiol a manteisiol) ar y dirwedd sydd ohoni na gwerth elfennau'r dirwedd o ran amwynder. Mae CSYM o'r farn bod hyn yn mynd yn groes i EN-1, paragraff 5.9.6, sy'n gofyn i ymgeiswyr asesu effeithiau gwaith adeiladu a gweithredu ar elfennau sy'n ymwneud â'r dirwedd ynghyd â chymeriad y dirwedd.
- 1.2.22 Byddai effeithiau gweledol niweidiol, a'r rheini'n sylweddol, yn arwain at effaith negyddol ar gyfran uchel o'r nifer gyfyngedig o dderbynyddion gweledol sydd â golygfeydd lleol (fel y rheini a ddiffinnir yn Nhabl H10-1 ym Mhennod H10, Tirwedd ac Elfennau Gweledol⁶) oherwydd. Bydd effaith negyddol ar bobl sy'n dod i weld y ddwy heneb gofrestredig gerllaw, derbynyddion yn y gymuned yn y rhannau agosaf o Kingsland (ambell eiddo o gwmpas Cweryd Villas) a Threarddur, a'r rheini sy'n defnyddio'r rhannau agosaf o ddau lwybr beicio a'r Ffordd Gwasanaethau at ddibenion hamdden ac am gyfnodau byr.

⁶ Cyfeirnod Llyfrgell Archwiliadau APP-[364]

- 1.2.23 Mae CSYM wedi edrych ar y rhestr o fesurau lliniaru ychwanegol a gynigir gan Horizon ac mae'n cytuno â Horizon – er y byddai mabwysiadu'r ystod gyfyngedig o fesurau'n fuddiol, ni fyddent yn newid yr asesiadau gweledol ar gyfer unrhyw grŵp o dderbynyddion gweledol. Mae CSYM wedi tynnu sylw at ddau leoliad ar y safle lle gellid mynd ati i blannu mwy er mwyn sgrinio a lleihau'r hyn y gellir ei weld. Dylai'r gwrych arfaethedig i'r ffin ogledd-orllewinol gynnwys rhywogaethau coed, a gellid plannu yn yr ardal â'r siâp afreolaidd y tu hwnt i'r gwrych wrth ymyl y goedlan er mwyn gwneud iawn am gael gwared ar ran ohoni. Wedi dweud hynny, byddai'n well gan CSYM petai'r coetir yn aros, a byddai'n gofyn am ystyried creu ail-ddyluniad heb fod yn faterol o'r cyfleuster gyda golwg ar ei gadw.
- 1.2.24 Ar lefel ehangach, mae potensial ar gyfer plannu strwythurol ym Mharc Cybi i ategu'r hyn a ddarparwyd yn barod ar gyfer rhai rhannau o Ffordd y Gwasanaethau.
- 1.2.25 Byddai CSYM yn dymuno cytuno ar liw'r ffens, a strwythurau eraill, ac mae'n herio'r cais am golofnau golau 12m o uchder gan fod hyn yn eu gwneud yn fwy amlwg i bobl eu gweld, e.e. Golygfan 1 yn Siambr Gladdu Trefignath. Rhoddir ystyriaeth bellach i'r effaith ar yr amgylchedd hanesyddol isod.

Yr Amgylchedd Hanesyddol

- 1.2.26 Mae Horizon wedi tynnu sylw at ddwy heneb gofrestredig, sef maen hir Tŷ Mawr a siambr gladdu Trefignath, ac fe allai'r olygfa o'r gwaith arfaethedig, a/neu'r sŵn yn ystod y gwaith adeiladu ac yn ystod y cam gweithredol, olygu newid anffafriol iddynt. Daw i'r casgliad fod dwy elfen allweddol yn cyfrannu at leoliad yr asedau hyn sy'n rhan o'n treftadaeth; rhyngweledded rhwng y ddau ased; a'u haliniad â chodiad yr haul yn ystod heuldro'r gaeaf.
- 1.2.27 Byddai'r datblygiad arfaethedig, fel y mae ffotogyfosodiad Golygfannau 1 a 2 (App.H10-5)⁷ yn ei ddangos, yn amharu ar y golygfeydd rhwng y ddau ased hyn a'r olygfa o'r haul yn codi yn ystod heuldro'r gaeaf o faen hir Tŷ Mawr, ond ni fyddai'n eu hatal.
- 1.2.28 Gan gofio y byddai amser codiad yr haul yn ystod heuldro'r gaeaf yn digwydd o fewn oriau gweithredu arferol y cyfleuster hwn, dylai'r asesiad fod wedi ystyried effaith y nifer uwch o gerbydau'n symud, a'r goleuadau cysylltiedig, ar weledded ac ar y profiad o weld yr haul yn codi yn ystod yr heuldro o heneb Tŷ Mawr.
- 1.2.29 Felly mae CSYM o'r farn y byddai casgliadau'r asesiad ar effaith y Ganolfan Logisteg ar faen hir Tŷ Mawr a siambr gladdu Trefignath yn fwy na'r hyn a aseswyd gan Horizon, ac y byddai'r Ganolfan yn cael effaith negyddol arnynt. Mae'r newid yn y safle yn debygol o arwain at rywfaint o niwed i arwyddocâd y ddau ased, gan olygu effeithiau niweidiol sylweddol o ran Rheoliadau'r Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol, a dylid eu hystyried yn erbyn manteision y Ganolfan Logisteg arfaethedig. Mae'r newid sylweddol i natur lleoliad yr asedau hyn yn

⁷ Cyfeirnod Llyfrgell Archwiliadau APP-[379]

golygu y dylid rhoi blaenoriaeth i warchod yr elfennau eraill sy'n cyfrannu at y lleoliad, ac ni ellir ystyried hyn fel llai o sensitifrwydd i newid.

1.2.30 Nid yw'r mesurau lliniaru archaeolegol i bob golwg yn cyd-fynd â'r casgliadau sydd yn y Datganiad Amgylcheddol, sy'n nodi bod gweddillion archaeolegol wedi cael eu dynodi a'u cofnodi o'r blaen. Er bod cofnodi safle presennol y ddwy heneb gofrestrdig yn dda o beth, ni fydd hynny'n gwneud llawer i leihau niwed. Yn yr un modd, er y gallai mesurau lliniaru (gan gynnwys dyluniad a dewis goleuadau i leihau'r golau fydd yn cael ei daflu) leihau ychydig bach ar yr effaith, nid yw'n ymddangos bod unrhyw ffordd o liniaru effaith y goleuadau ar ryngweledd.

1.2.31 Mae CSYM yn teimlo bod mesurau fel darparu rhagor o ddeunyddiau dehongli wrth y ddwy heneb gofrestrdig yn cynnig cyfleoedd i wneud iawn am rai o effeithiau negyddol y cynllun, ac oherwydd hynny dylid sicrhau'r ddarpariaeth hon yn y DCO.

1.3 Materion eraill

1.3.1 Fel y nodwyd o'r blaen yn yr isadran ar Draffig a Thrafnidiaeth, byddai'r cyfleuster Logisteg arfaethedig, pan fyddai'n weithredol, yn ffordd o liniaru'r effeithiau traffig y gellid, fel arall, eu gweld yn ystod y gwaith o adeiladu'r Brif Safle. Mae CSYM yn mynnu bod mesurau cadarn ar gael iddo er mwyn gallu rheoli nifer y cerbydau sy'n mynd o'r safle. Gan edrych ar brofiad safle Hinkley, roedd hyrwyddwr y prosiect yn dilyn strategaeth i gynyddu nifer y symudiadau HGV oherwydd oedi wrth adeiladu'r lanfa.

1.3.2 Mae CSYM yn bryderus hefyd ynglŷn â dargyfeirio traffig y gwaith adeiladu ar Bont Menai os yw Pont Britannia wedi cau, oherwydd byddai hyn yn cael effaith niweidiol ar y gymuned leol. Mae CSYM am i Horizon fynd ati gyda CSYM, Llywodraeth Cymru, Cyngor Gwynedd a Heddlu Gogledd Cymru i ddatblygu a chytuno ar y gweithdrefnau y dylid eu dilyn petai'r bont ar gau, gan gynnwys y rhain yn fanwl yn y Cod Ymarfer Adeiladu. Bydd hyn yn cynnwys, er enghraifft, cadw cerbydau HGV yn y Ganolfan Logisteg.

1.3.3 Mae Horizon yn cynnig datgomisiynu rhywfaint ar y cyfleuster pan fydd y gwaith o adeiladu'r brif safle wedi dod i ben. Dim ond amserlen ar gyfer adeiladu a chomisiynu'r cyfleuster sydd yn y Strategaeth Cam wrth Gam a gyflwynwyd gan Horizon. Yn yr un modd, nid yw Atodiad D1-1, y Datganiad Dull Adeiladu⁸, yn cyfeirio at ddatgomisiynu'r cyfleuster. Mae CSYM yn gofyn am gael proses a fydd yn caniatáu iddo gytuno ar amseru'r gwaith datgomisiynu, er mwyn sicrhau nad yw'r cyfleuster yn cael ei gau'n rhy fuan a/neu nad yw'n cael ei ddatgomisiynu'n rhy fuan pan nad oes angen y cyfleuster mwyach. Mae'n debygol, er enghraifft, y bydd angen llawer o gerbydau HGV i gael gwared ar Gampws arfaethedig y Safle a'r offer adeiladu a ddefnyddiwyd yn y Brif Safle, a dylai sicrhau bod y Ganolfan Logisteg ar gael yr adeg honno fod yn fuddiol.

⁸ Cyfeirnod Llyfrgell Archwiliadau APP-[136]

1.3.4 Mae CSYM yn cadarnhau ei fod yn derbyn y bydd Horizon yn cael gwared â'r strwythurau a'r cyfarpar a nodwyd ganddo ar gyfer datgomisiynu, ond mae'n cynnig y dylai'r arwynebau caled, y ffensys, y goleuadau a'r gwasanaethau gael eu cadw hefyd, yn ychwanegol at yr elfennau tirlunio. Bydd CSYM yn disgwyl i Horizon gadw'r safle yn y statws datgomisiynu am bum mlynedd neu nes bydd y safle'n dod i feddiant neu'n cael ei werthu i drydydd parti, pa un bynnag sy'n digwydd gyntaf, ac mae'n dymuno cael gofyniad i sicrhau hynny.

1.4 Safbwynt Polisi

1.4.1 Mae Polisi Strategol PS9 (Wylfa Newydd a Datblygiad Cysylltiedig) yn cyflwyno rhestr o feini prawf y mae angen i hyrwyddwr y cynllun gydymffurfio â nhw wrth ystyried Wylfa Newydd a Datblygiadau Cysylltiedig. Yn unol â PS9, dylai'r polisïau sydd wedi'u cynnwys yn y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd, ynghyd ag unrhyw Ganllawiau Cynllunio Atodol, arwain y ffordd y mae Wylfa Newydd a Datblygiadau Cysylltiedig yn cael eu datblygu (Maen Prawf 1). Dylai'r holl gynigion sy'n ymwneud â phriffyrdd a thrafnidiaeth ar gyfer prosiectau Wylfa Newydd fod yn rhan o strategaeth traffig a thrafnidiaeth integredig hefyd ac ystyried PS4 (Trafnidiaeth gynaliadwy, datblygiad a hygyrchedd) yn ogystal ag unrhyw bolisïau manwl perthnasol eraill sydd yn y Cynllun (Maen Prawf 3). Yn ôl Maen Prawf 6 Polisi PS9, lle bo cynigion ar gyfer cyfnod dros dro, dylai'r manylion ynghylch dewis y safle a manylion y cynnig gael eu hysbysu gan ddefnydd etifeddol, fel bod buddsoddiad mewn elfennau fel seilwaith, adeiladau, gweithfeydd ecolegol a thirwedd yn dod â buddion hirdymor. Mae Maen Prawf 9 o PS9 yn cyflwyno gofyniad am gyfleoedd i sicrhau cymaint o gyfleoedd gwaith, busnes a hyfforddi ag y bo modd ar gyfer cymunedau lleol yn y tymor byr ac yn y tymor hwy. Drwy wneud hyn, dylai strategaethau hyrwyddwr y prosiect ar gyfer caffael, cyflogaeth, addysg a hyfforddiant, yn ogystal â'i strategaethau o ran y gofyniad a'i gynlluniau ar gyfer cyflawni, gael eu cyflwyno i CSYM fel rhan o'r cais DCO.

1.4.2 Mae Polisi Strategol PS11 (Wylfa Newydd – Canolfannau Logisteg) yn cefnogi cynigion ar gyfer canolfannau logisteg ar safleoedd cyflogaeth sydd wedi'u diogelu neu'u dyrannu, ar yr amod bod y cynnig yn cynnwys darpariaeth ar gyfer trafndiaeth gynaliadwy i staff. Mae hyn yn cynnwys cysylltiadau â thrafnidiaeth gyhoeddus fel y bo'n briodol, a bod lleoliad busnesau a gweithgareddau, mynedfeydd ac allanfeydd, a mecanweithiau priodol eraill ar gyfer cyflawni'r datblygiad, yn lleihau'r effeithiau negyddol ar amwynder cymunedau lleol.

1.4.3 Mae'r cynnig yn rhan o Brif Safle Cyflogaeth a Ddiogelir Parc Cybi. Yn unol â PS13 (Darparu Cyfle ar gyfer Economi Ffyniannus) a Pholisi CYF1, mae'r safle wedi'i ddiogelu ar gyfer defnydd tir B1, B2, B8 ac ambell Ddosbarth Defnydd 'defnydd unigryw' arall (sui generis yn flaenorol). Ystyrir bod y defnydd y mae Horizon yn bwriadu ei wneud o'r safle yn sui generis, ac oherwydd hynny, mewn egwyddor, fe allai fod yn dderbyniol o ran polisi, ar yr amod ei fod yn cydymffurfio â pholisïau eraill sy'n benodol i'r pwnc.

1.4.4 Mae Canllawiau Cynllunio Atodol Wylfa Newydd yn ymhelaethu ar Bolisi PS9 a Pholisi PS11. Mae'n nodi y dylid lleoli'r Ganolfan Logisteg mewn man

daearyddol sy'n caniatáu mynediad effeithiol at brif safle Gorsaf Bŵer Wylfa Newydd, ac y dylid cymryd camau i sicrhau bod defnydd cadarnhaol yn cael ei wneud o'r safle ar ôl dyddiau'r Ganolfan. Y polisi perthnasol yng Nghantllawiau Cynllunio Atodol Wylfa Newydd yw GP3 (Defnyddio Tir ar gyfer Safleoedd Cyflogaeth, Logisteg a Thrafnidiaeth). Mae GP3 yn cyfeirio eto at yr angen i sicrhau etifeddiaeth fuddiol (gan gynnwys o bosib trawslwytho nwyddau drwy Borthladd Caergybi neu adfer y safle ar gyfer defnydd addas yn y dyfodol).

Ecoleg

- 1.4.5 Mae'r polisiau sy'n berthnasol i liniaru yn cynnwys Adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. (Darperir rhagor o fanylion ym mharagraff 5.3.1 yn y Bennod ar Ardal Datblygu Wylfa Newydd). Mae CSYM yn teimlo bod y polisi a'r ddeddfwriaeth genedlaethol hon, gyda chefnogaeth y polisiau lleol isod, yn cyfiawnhau'r mesurau lliniaru ychwanegol y gofynnwyd amdanynt uchod.
- 1.4.6 Mae Polisi Strategol PS5 y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd yn nodi y dylai pob cynnig *'warchod a gwella ansawdd yr amgylchedd naturiol, ei dirwedd a'i asedau bioamrywiaeth'*, tra mae Polisi Strategol PS9, maen prawf 6, yn nodi y bydd y Cynghorau, wrth baratoi'r Adroddiad ar yr Effaith Leol – lle mae'r cynigion yn rhai ar gyfer cyfnod dros dro – yn ceisio sicrhau'r canlynol: *'fe ddylai dewis y safle a manylion y cynnig roi ystyriaeth i'r etifeddiaeth a fyddai'n deillio ohonynt fel bod buddsoddi mewn elfennau fel isadeiledd, adeiladau, gwaith ecolegol a thirlun yn dod â buddion tymor hir'*.
- 1.4.7 Mae Polisi Strategol PS9, maen prawf 8, y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd yn nodi bod angen gwarchod, cadw neu wella coed, gwrychoedd neu goetir sydd â gwerth gweledol, ecolegol, hanesyddol, diwylliannol neu amwynder.
- 1.4.8 Mae Polisi AMG5 y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd, Rhoi Sylw i Gadwraeth Bioamrywiaeth Leol, yn nodi ei bod yn rhaid i gynigion *'warchod a, ble'n briodol, gwella bioamrywiaeth...ystyried cyfleoedd i greu, gwella a rheoli cynefinoedd bywyd gwyllt a thirwedd naturiol gan gynnwys coridorau bywyd gwyllt...coed, gwrychoedd ac ati.'*
- 1.4.9 Mae GP21, Gwarchod a Gwella'r Amgylchedd Naturiol, Canllawiau Cynllunio Atodol Wylfa Newydd yn dweud, pan nad oes modd osgoi effeithiau niweidiol y bydd angen rhoi mesurau lliniaru a/neu wneud iawn ar waith.
- 1.4.10 O ran y polisi lleol y cyfeirir ato, mae CSYM o'r farn bod angen mesurau lliniaru ychwanegol er mwyn gwarchod derbynyddion ecolegol sy'n bodoli'n barod yn ddigonol, er enghraifft mamaliaid Adran 7. Ar ben hynny, mae'r polisi'n cefnogi mesurau i gadw nodweddion y cynefinoedd a restrwyd yn gynharach yn y bennod hon, ac mae'n cyd-fynd â gofynion CSYM o dan yr is-bennawd canlynol ar gyfer plannu ychwanegol ar y safle ac oddi arno.

Tirwedd ac Elfennau Gweledol

- 1.4.11 Mae polisiau perthnasol yng Nghynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn (2011 – 2026) yn cynnwys Polisi Strategol PS 19 (gwarchod a gwella'r

amgylchedd naturiol drwy ddiogelu, cadw a gwella coed, gwrychoedd a choetir), Polisi AMG 3 (gwarchod a gwella nodweddion a rhinweddau sy'n nodweddiadol o gymeriad y dirwedd leol) a Pholisi AMG 5 (cadwraeth bioamrywiaeth leol, gan gynnwys cyfleoedd i greu, gwella a rheoli cynefinoedd bywyd gwyllt a thirwedd naturiol gan gynnwys coridorau bywyd gwyllt...coed, gwrychoedd, coetiroedd a chyrisiau dŵr).

- 1.4.12 Mae Polisi Strategol PS9: Wylfa Newydd a Datblygiad Cysylltiedig yn nodi ym maen prawf 8: *'Dylai sut mae'r cynllun yn cael ei gynllunio...tirweddu, plannu (gan gynnwys gwrychoedd a choed)...osgoi, lleihau, lleddfu neu wneud iawn am ardrawiadau ar olygfa, tirwedd ac ecoleg yr ardal leol ac ehangach.'* Mae maen prawf 13 yn nodi: *"Dylai'r baich a'r tarfu ar y gymuned...gael ei gydnabod; a bydd ymgais i gael y datblygwr i ddarparu pecynnau priodol o fuddion i'r gymuned er mwyn gwrthbwyso a digolledu'r gymuned..."* Mae maen prawf 16 yn nodi ei bod yn bosib, wrth i'r prosiect ddatblygu, y bydd amgylchiadau na chawsant eu rhagweld yn codi, a bydd angen i waith ychwanegol gael ei wneud er mwyn gwneud iawn am unrhyw ardrawiadau ar y gymuned y mae hynny'n effeithio arni. Mae angen i Horizon fonitro effeithiau ac adolygu pa mor briodol yw'r mesurau lliniaru a gwneud yr addasiadau sy'n angenrheidiol.
- 1.4.13 Mae Polisi Strategol PS11: Wylfa Newydd – Canolfannau Logisteg yn cyfeirio at Bolisi PS9. Mae maen prawf 1iii yn pwysleisio bod angen i'r Ganolfan Logisteg gael ei lleoli ar safle lle gellir *"lleihau a lliniaru ardrawiadau'r datblygiad yng nghefn gwlad yn foddhaol."* Yn ôl maen prawf 3: *"defnyddir mecanweithiau priodol i lliniaru ardrawiadau negyddol y datblygiad arfaethedig ar fwynderau cymunedau lleol."* Mae CSYM o'r farn bod y polisiau hyn yn cyfiawnhau gofyn am rywfaint o waith plannu ychwanegol er mwyn lliniaru, ar y safle ac oddi arno. Cefnogir hyn ymhellach gan Bolisi AMG1, Cynlluniau Rheoli AHNE, sy'n dweud ei bod yn rhaid i gynigion o fewn y lleoliad neu sy'n effeithio arno a/neu olygfeydd sylweddol i'r Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol neu ohoni, lle bo hynny'n briodol, ystyried Cynllun Rheoli'r Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol sy'n berthnasol.
- 1.4.14 Bydd angen i'r hyn a blannir yn ychwanegol ar gyfer sgrinio gyd-fynd â llawer o'r meini prawf ym Mholisi PCYFF 4: Dyluniad a Thirweddu, sy'n dweud bod modd i gynlluniau tirwedd sydd wedi'u cynllunio'n dda fod yn ased parhaol i'r gymuned ac mai'r nod yn gyffredinol yw cael amgylchedd sy'n sicrhau'r ansawdd bywyd gorau posib i bobl sy'n byw ac yn gweithio yn ardal y Cynllun.
- 1.4.15 Y polisiau perthnasol yn Adolygiad Cynllun Rheoli AHNE Ynys Môn (2015-2020)⁹ yw Polisi CCC3.1 (bydd yr holl gynigion sy'n ymwneud â datblygiad o fewn a hyd at 2km o'r AHNE yn cael eu hasesu'n drylwyr i sicrhau cyn lleied â phosib o ddatblygiadau amhriodol a allai niweidio nodweddion a rhinweddau arbennig yr AHNE) a Pholisi CCC3.2 (bydd disgwyl i bob datblygiad newydd ac ailddatblygiadau o fewn a hyd at 2km o'r AHNE fabwysiadu'r safonau uchaf o ran dylunio, deunyddiau a thirlunio er mwyn cyfoethogi rhinweddau a nodweddion arbennig yr AHNE).

⁹ Cynllun Rheoli AONE 2015-2019 (Dolen)

- 1.4.16 Gan ystyried cymeriad y dirwedd y lleolir y safle hwn ynnddi (LCA 2: Ynys Gybi), mae Strategaeth Tirwedd Ynys Môn (Diweddariad 2011) yn dweud y dylai datblygiad wneud y canlynol: ceisio defnyddio patrymau llystyfiant a ffurf y tir i leihau'r effeithiau, peidio â defnyddio atebion safonol, gan wneud yn fawr o nodweddion lleol cynhenid yn lle hynny, ac ystyried Cynllun Rheoli'r AHNE. Mae Strategaeth y Dirwedd a'r adolygiad o Gynllun Rheoli'r AHNE yn rhoi cymorth ym maes polisi i gyflwyno manylion penodol ychwanegol ar gyfer tirlunio'r safle.
- 1.4.17 Mae GP 33: Caergybi a'r Ardal, Canllawiau Cynllunio Atodol Wylfa Newydd, yn cael eu hystyried yn berthnasol hefyd. O dan un o'r materion allweddol, yr Amgylchedd Naturiol, nodir y dylid ystyried lleoliad, maint a dyluniad y datblygiad yn ofalus er mwyn gwarchod a gwella Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Ynys Môn ac Arfordir Treftadaeth Mynydd Tŵr. Pan fydd pethau'n cael effaith niweidiol (negyddol) ar yr amgylchedd naturiol, dylid lliniaru'r rhain a gwneud iawn amdanynt i'r graddau mwyaf posib.

Dŵr Wyneb a Dŵr Daear

- 1.4.18 Mae meini prawf 6, 7 ac 8 Polisi Strategol PS 5, Datblygu Cynaliadwy, y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd, yn dweud bod angen gwarchod a gwella'r amgylchedd naturiol, osgoi llygredd yn sgil datblygiadau newydd a lleihau'r effeithiau sy'n deillio o ddatblygiadau ar adnoddau ac ansawdd dŵr, yn ogystal â rheoli perygl llifogydd a gwneud y defnydd mwyaf posib o gynlluniau draenio cynaliadwy.
- 1.4.19 Mae GP20, Addasu i Newid yn yr Hinsawdd, Canllawiau Cynllunio Atodol Wylfa Newydd, yn dweud bod angen rhoi mesurau priodol ar waith i roi sylw i effeithiau newid yn yr hinsawdd. Er enghraifft, darparu storffeydd unioni wrth i ddŵr godi a defnyddio systemau draenio cynaliadwy. Mae hefyd yn gofyn am gynlluniau rhybudd llifogydd a chynlluniau gadael mewn argyfwng.
- 1.4.20 Mae GP22 y Canllawiau Cynllunio Atodol, Gwarchod Amgylchedd y Dŵr, hefyd yn gofyn i hyrwyddwr y prosiect ddangos na fyddai'r prosiect yn cael effaith niweidiol ar ansawdd dŵr, cynefinoedd y glannau na nodweddion dyfrol, ac mewn achosion lle canfyddir bod potensial ar gyfer effeithiau niweidiol, fod mesurau lliniaru priodol yn cael eu rhoi ar waith. Ar ben hyn, mae'r Egwyddor Arweiniol yn galw am reoli dŵr ffo sy'n deillio o ddŵr wyneb, eto drwy gynlluniau draenio cynaliadwy.
- 1.4.21 Mae GP 33 y Canllawiau Cynllunio Atodol, Caergybi a'r Ardal, yn cyfeirio at yr angen i roi ystyriaeth ofalus i ddatblygiadau mewn ardaloedd lle mae perygl llifogydd. Er bod y tir a fyddai'n gartref i'r ganolfan logisteg yn cael ei ystyried yn dir isel ei risg, mae CSYM wedi sôn am y posibilrwydd o lefel trwythiad uchel, a allai effeithio ar berfformiad y system draenio cynaliadwy. Cwestiynir perfformiad y system honno o ran cyfraddau rhyddhau hefyd.

Yr Amgylchedd Hanesyddol

1.4.22 Mae Polisi Strategol PS9: Wylfa Newydd a Datblygiad Cysylltiedig yn nodi ym maen prawf 8: *“Dylai sut mae'r cynllun yn cael ei gynllunio osgoi, lleihau, lleddfu neu wneud iawn...am agweddau diwylliannol a hanesyddol y dirwedd, yn y tymor byr a'r tymor hirach.”* Yna mae Polisi PCYFF 3 Dylunio a Siapio Lle yn nodi ei bod yn rhaid i bob cynnig ystyried cyd-destun yr amgylchedd naturiol, hanesyddol ac adeiledig. Mae polisi'n ategu bod angen rhoi ystyriaeth bellach i'r effeithiau ar y lleoliad, ac i effeithiau'r colofnau golau a'r goleuadau posib yn benodol ar yr henebion cyfagos.

1.4.23 Y polisiau perthnasol sy'n ymwneud â'r amgylchedd hanesyddol yw PS 20 y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (diogelu a lle bo'n berthnasol wella asedau treftadaeth) a Pholisi AT 4 (diogelu safleoedd archaeolegol heb eu dynodi a'u lleoliad, sy'n cynnwys safleoedd pwysig o ran treftadaeth leol).

Traffig a Thrafnidiaeth

1.4.24 Yng nghyd-destun safbwynt CSYM, fel y cyflwynir yn y bennod hon, mae CSYM yn nodi bod Polisi Strategol GP PS 11, Canolfannau Logisteg Wylfa Newydd, yn y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd yn dweud: *‘dylai bod y cynigion yn cynnwys trefniadau trafndiaeth gynaliadwy i staff gan gynnwys cysylltiadau i gludiant cyhoeddus, fel bo'n briodol’.*

Etifeddiaeth

1.4.25 Safbwynt CSYM o ran etifeddiaeth, fel y nodir uchod, yw y dylai'r safle fod ar gael ar gyfer defnydd yn y dyfodol, gyda gwasanaethau ac arwynebau yn eu lle. Mae polisiau lleol yn cefnogi'r farn hon, a Pholisi Strategol PS 9 y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd yn arbennig. Mae maen prawf 15 yn dweud: *‘bod y tir sydd wedi cael ei wasanaethu wedi'i adael mewn cyflwr addas ar ôl cael gwared ar y strwythurau yn unol â chynllun gwaith a gyflwynwyd ac a gymeradwywyd gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol’.*

1.5 Bylchau yn y wybodaeth

Ecoleg

1.5.1 Mae CSYM yn gofyn am gadarnhad bod dyluniad cynllun goleuadau'r Ganolfan Logisteg wedi'i seilio cyhyd ag y bo'n ymarferol ar arweiniad yr Ymddiriedolaeth Cadwraeth Ystlumod. Yn ogystal â hyn, mae arno angen llawer mwy o wybodaeth am y dulliau fydd yn cael eu defnyddio i liniaru effeithiau ar rywogaethau a allai fod yn bresennol ar y safle, a hynny mewn Is-God Ymarfer Adeiladu sydd wedi'i ddiwygio'n sylweddol. Mae CSYM yn arbennig o bryderus ynglŷn â sut y bwriedir lliniaru'r effaith ar y neidr ddefaid, ac a yw hynny'n briodol.

Tirwedd ac Elfennau Gweledol

- 1.5.2 Gellir dweud mai'r prif fylchau yn y wybodaeth DCO a ddarparwyd yw'r diffyg asesiad o'r effeithiau ar elfennau'r dirwedd, a diffyg cynlluniau tirlunio caled a meddal manwl a chynllun adfer y dirwedd (gan dderbyn y bwriad i gadw elfennau pwysig o'r datblygiad ar ôl i'r orsaf bŵer gael ei hadeiladu). Mae angen cael y wybodaeth hon er mwyn gallu deall effeithiau'r datblygiad arfaethedig yn llawn ar elfennau'r dirwedd (ac yn sgil hynny, ar gymeriad y dirwedd, dynodiadau'r dirwedd ac amwynder gweledol) a chreu cynlluniau manwl ar gyfer tirwedd y safle. Fodd bynnag, gellir rhoi sylw i'r bylchau hyn drwy ofynion y DCO a nodir isod.
- 1.5.3 Byddai CSYM hefyd yn dymuno gweld amlinelliad o gynllun adfer ar gyfer y safle, cytundeb ynglŷn â ffynhonnell y planhigion a fydd yn cael eu defnyddio yn y cynlluniau ar gyfer y dirwedd a'r broses adfer – dylai'r holl goed, y gwrychoedd a'r hadau ar gyfer y llwyni fod yn lleol/o Ogledd Cymru, ac efallai y bydd angen sefydlu meithrinfeydd planhigion cyn y gwaith adeiladu er mwyn sicrhau hyn. Ni cheir asesiad o'r effeithiau ar elfennau'r dirwedd, a dylid darparu asesiad o'r effeithiau uniongyrchol sy'n debygol (effeithiau anffafriol a buddiol, pan fydd y Ganolfan Logisteg arfaethedig yn cael ei hadeiladu, ar waith ac yn cael ei datgomisiynu) ar elfennau'r dirwedd fel y mae ar hyn o bryd.
- 1.5.4 Nid oes unrhyw wybodaeth am niferoedd y coed a'r llwyni yn y goedlan yng nghornel orllewinol y safle y bydd angen eu torri i lawr yn ystod y cyfnod adeiladu. Gan gofio bod yr Asesiad Gweledol yn seiliedig ar y rhagdybiaeth mai dim ond 1.5m fydd uchder y gwrychoedd sy'n creu'r ffiniau ar ddiwedd y cyfnod pan fydd y Ganolfan yn weithredol, mae'n debygol mai'r rhan o'r goedlan hon fydd yn cael ei chadw fydd yr unig ffordd effeithiol o sgrinio'r olygfa'n rhannol i rai derbynyddion gweledol. Byddai rhagor o wybodaeth am nifer y coed fydd yn cael eu colli yn helpu i bennu cwmpas ar gyfer y mesurau lliniaru ychwanegol y mae CSYM yn gofyn amdanynt, ac y bydd angen eu dynodi a chytuno arnynt gyda Horizon.

Dŵr Wyneb a Dŵr Daear

- 1.5.5 Mae CSYM o'r farn bod angen rhagor o fanylion am y canlynol:
- a) Capasiti'r cwlfertau o dan yr A55/cadarnhad bod digon o Systemau Draenio Cynaliadwy ar y safle ac oddi ar y safle (Parc Cybi) wedi'u darparu i sicrhau nad yw ansawdd dŵr oddi ar y safle'n dirywio, p'un ai a yw'r hyn sy'n draenio'n mynd i Fae Caergybi neu beidio yn y pen draw.
 - b) Cadarnhau'r sail ar gyfer rheoli dulliau arafu dŵr/a'r gyfradd – nid yw'r dogfennau'n dweud yn glir beth yw'r gyfradd wirioneddol ar gyfer safle'r datblygiad arfaethedig. Mae'r gyfradd 367l/s yn fawr iawn ar gyfer safle o'r maint yma ac nid yw'n ymddangos ei fod yn gywir. Mae angen esboniad.
 - c) Cadarnhau'r testun sy'n ymwneud â thynnu dŵr o ran cael gwared ar eithriadau trwydded o fis Ionawr 2018 ymlaen.

Amgylchedd Hanesyddol

- 1.5.6 Mae CSYM o'r farn y dylid rhoi mwy o ystyriaeth i faint yr effaith y bydd newidiadau yn y safle yn ei chael ar y ddau ased, gan ystyried hyn yn erbyn

manteision y cynllun arfaethedig, er mwyn cyd-fynd â'r ddeddfwriaeth a'r polisiau perthnasol.

1.6 Gofynion a Rhwymedigaethau'r DCO

Gofynion

- 1.6.1 Yn amodol ar gadarnhad ynglŷn â'r uchod ac unrhyw wybodaeth ychwanegol gan Horizon, mae CSYM am i newidiadau gael eu gwneud i'r Is-God Ymarfer Adeiladu a'r gofynion i wneud yn siŵr bod datganiadau dull i ddiogelu derbynyddion ecolegol yn cael eu llunio a'u cytuno. Mae'r Is-God Ymarfer Adeiladu hefyd yn gofyn am ddiwygiadau pellach i roi sylw i faterion yn ymwneud â rheoli traffig, gwell darpariaeth ar gyfer trafndiaeth gyhoeddus a darpariaeth ar gyfer beicio, ynghyd â mesurau i reoli perygl llifogydd pan fydd y cyfleuster yn weithredol.
- 1.6.2 Dylai'r wybodaeth yn yr Is-God Ymarfer Adeiladu diwygiedig hefyd gynnwys gwybodaeth am gynllun ymdrin â deunyddiau er mwyn gwneud yn siŵr yr eir ati'n ofalus i wahanu'r uwchbridd, yr isbridd a'r gorlwythi ar y safle yn ystod y gwaith ailfodelu a thorri a llenwi ar y safle. Drwy wneud hyn, gellir gwneud yn siŵr bod uwchbridd ac isbridd sydd wedi dod o'r safle'n cael eu defnyddio'n briodol – yn yr ardaloedd lle mae'r glaswelltir ar gyfer plannu ac amwynder (uwchbridd) ac ar gyfer yr ardaloedd lle mae'r glaswelltir cyfoethog ei rywogaethau (isbridd). Dylai hefyd gynnwys cynllun, i'w gymeradwyo gan CSYM cyn i'r gwaith gychwyn ar y safle, ar reoli rhywogaethau goresgynnol, a hwnnw'n dweud beth yw'r rhywogaeth a'r mesurau rheoli a ddefnyddir.
- 1.6.3 Byddai CSYM hefyd yn gwneud cais am ofyniad DCO newydd yn gofyn am ddiwygio cynllun y safle. Nod hyn fyddai caniatáu ar gyfer cadw mwy o'r coetir sydd yng nghornel orllewinol y safle ar hyn o bryd.
- 1.6.4 Mae CSYM hefyd yn gofyn am gyflwyno cynlluniau manwl ar gyfer tirlunio caled a meddal er mwyn i CSYM allu eu cymeradwyo cyn i'r gwaith ddechrau ar y safle. Dylai'r cynllun tirlunio caled gynnwys y canlynol, ond ni ddylai fod yn gyfyngedig iddynt:
- Cynlluniau manwl sy'n dangos lleoliadau a dimensiynau'r holl elfennau sy'n cyfrif fel tirlunio caled.
 - Manylebau a lluniadau o'r ffens ddiogelwch a'r holl arwynebau caled ar y safle.
 - Rhaglen weithrediadau adeiladu a chynnal a chadw ar gyfer y cynllun tirlunio caled, a hynny ar gyfer y prosiect i gyd o'r dechrau i'r diwedd.
- 1.6.5 Dylai'r cynllun manwl ar gyfer tirlunio meddal, wedi'i seilio ar yr arolwg coedyddiaeth, gynnwys y canlynol, ond ni ddylai fod yn gyfyngedig iddynt:
- Ymyl newydd sbon, well, wedi'i greu o goetir brodorol, plannu gwrychoedd, coed a llwyni, a glaswelltir cyfoethog ei rywogaethau, fel y

cynigir yn WN0902-HZDCO-ADV-DRG-00016 (dogfen 2.12)¹⁰, wedi'i addasu yn ôl yr angen yn unol â'r cynllun diwygiedig a'r coetir sy'n cael ei gadw, er mwyn cyflawni'r 19 amcan dylunio amgylcheddol yng Nghyfrol 3 Atodiad 1-4, a chynnwys yr holl fesurau lliniaru a nodwyd yn Nhabl 1, 2 a 3.

- b) Rhestr fanwl o blanhigion ar gyfer yr ymyl wedi'i greu o goetir, gwrychoedd, llwyni a choed, gan gynnwys rhywogaeth, maint, nifer a dwysedd/bylchau wrth blannu.
- c) Rhestr fanwl o gyfuniadau o rywogaethau ar gyfer y glaswelltir cyfoethog ei rywogaethau y bwriedir ei gael, gan gynnwys cyfraddau hau hadau a rhywogaethau.
- d) Tarddiad ffynonellau'r holl blanhigion a'r gymysgedd hadau (rhaid iddynt fod yn lleol neu o Ogledd Cymru, a rhaid i'r planhigion gael eu tyfu mewn meithrinfa blanhigion leol ar Ynys Môn am flwyddyn o leiaf cyn cael eu plannu er mwyn i'r planhigion gael cyfle i gynefino â'r amodau lleol).
- e) Cynlluniau plannu manwl yn dangos lleoliad y glaswelltir y bwriedir ei sefydlu a'r holl blanhigion fydd yn cael eu plannu.
- f) Manylebau ar gyfer y trefniadau defnyddio pridd, hau hadau, plannu a chynnal a chadw.
- g) Rhaglen weithrediadau sefydlu a chynnal a chadw ar gyfer y cynlluniau tirlunio caled a meddal, a hynny ar gyfer y prosiect i gyd o'r dechrau i'r diwedd. Dylai'r rhaglen ystyried bod angen i'r holl waith plannu y tu allan i'r ffens ddiogelwch ddigwydd cyn i'r gwaith adeiladu ddechrau, er mwyn i'r hyn sy'n cael ei blannu gael cyfle i ymsefydlu ac i ddechrau gwneud y ffens derfyn yn llai amlwg pan fydd hi yn ei lle.

1.6.6 Darparu cynllun sy'n dynodi'r coetir, y coed, y prysgwydd, y perthi, y cyrsiau dŵr a nodweddion eraill y dirwedd sydd i'w gweld (e.e. waliau cerrig, cloddiau) fydd yn cael eu cadw, a'r mesurau a ddefnyddir i warchod y rhain yn ystod y cyfnod adeiladu. Rhaid i hwn gael ei gyflwyno i CSYM a'i gymeradwyo ganddo cyn i unrhyw waith ddechrau ar y safle.

1.6.7 Darparu rhagor o fanylion am gynllun yr adeiladau a'r strwythurau allanol eraill, a'r ffordd maent wedi'u gosod allan, gan gynnwys y lleoliadau, y dimensiynau a'r deunyddiau allanol, y lliwiau a'r gorffeniadau terfynol, i'w cyflwyno a'u cymeradwyo gan CSYM cyn i unrhyw waith ddechrau ar y safle.

1.6.8 Darparu cynllun goleuadau manwl sy'n defnyddio'r nifer isaf bosib o golofnau golau ac sy'n cymryd camau i sicrhau nad oes golau'n cael ei daflu ar yr adeiladau cyfagos, y cyrsiau dŵr na nodweddion y terfynau (er mwyn sicrhau bod cyn lleied o lewyrch golau â phosib i'w weld yn y nos a chyn lleied â phosib o effaith ar gymeriad y dirwedd, nodweddion arbennig yr AHNE a dyheadau Ynys Môn ar gyfer y statws Awyr Dywyll). Rhaid i hwn gael ei gyflwyno i CSYM a'i gymeradwyo ganddo cyn i'r gwaith ddechrau ar y safle.

1.6.9 Darparu cynllun manwl ar gyfer datgomisiynu ac adfer y dirwedd sy'n nodi: nodweddion y dirwedd fydd yn cael eu cadw; y mesurau a ddefnyddir i amddiffyn

¹⁰ Cyfeirnod Llyfrgell Archwiliadau APP-[024]

y rhain yn ystod y gwaith datgomisiynu; unrhyw elfennau tirlunio caled a meddal i'w sefydlu ar y safle; ac o leiaf 5 mlynedd o gynnal a chadw (gweler isod); i'w gyflwyno a'i gymeradwyo gan CSYM.

1.6.10 Mae gofynion y DCO yn angenrheidiol hefyd i roi'r gallu i CSYM reoli pryd fydd y safle'n cael ei ddatgomisiynu ac i sicrhau y bydd Horizon, ar ôl y datgomisiynu, yn parhau i gadw'r safle mewn cyflwr a fydd yn cael ei gymeradwyo fel rhan o'r cynllun datgomisiynu am gyfnod o hyd at bum mlynedd.

Rhwymedigaethau

1.6.11 Byddai mesurau eraill a fyddai'n ofynnol drwy rwymedigaeth S106 yn cynnwys:

- a) Darparu Cronfa Amgylcheddol ar gyfer y Cyfnod Adeiladu i gyd, yn ogystal â 10 mlynedd ar ben hynny i ariannu gwelliannau i'r dirwedd yn rhan o'r AHNE (yn ardal y safle). Er enghraifft:
- b) Arolwg o wrychoedd, waliau cerrig a chloddiau er mwyn gweld beth yw hyd a lled a chyflwr terfynau caeau traddodiadol.
- c) Cynllun ar gyfer adfer terfynau caeau traddodiadol.
- d) Plannu i sgrinio oddi ar y safle wrth ymyl y safle ac o fewn Parc Cybi yn ehangach.
- e) Cynlluniau ar gyfer adfer a gwella cynefinoedd pwysig, fel coetir, gwrychoedd, ymylon ffordd a chynefinoedd y wiwer goch, a gwella'r cysylltiad rhwng cynefinoedd.
- f) Cynllun ar gyfer rheoli rhywogaethau goresgynnol anfrodorol.
- g) Cynlluniau rheoli draenio ar gyfer ffosydd a chyrsgiau dŵr wyneb, er mwyn gwella ansawdd dŵr i gynefinoedd a rhywogaethau, a gwella tir amaethyddol a lleihau llifogydd.
- h) Cynlluniau i wella llwybrau troed ar gyfer hawliau tramwy cyhoeddus sy'n bodoli'n barod, gan gynnwys arwynebau, giatiau, camfeydd, arwyddion ac ati.
- i) Rhaglenni sgiliau gwledig gydag ysgolion a chymunedau lleol.

1.6.12 Byddai CSYM hefyd yn dymuno gweld y gronfa amgylcheddol yn cynnwys arian ar gyfer gwella'r nodweddion archaeolegol cyfagos.